Cynhelir Diwrnod Agored y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig 2025 dan nawdd cangen Maldwyn am **12 o'r gloch, ddydd Sadwrn 27 Medi** drwy garedigrwydd Mr Meilir Jones, Tŷ Gwyn, Aberhosan.



Tir mynydd y fferm fydd lleoliad y digwyddiad, ble mae'r ddiadell o ddefaid mynydd Cymreig yn pori drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mynydd caeedig o 450 acer, sydd ag uchder o 1,250 - 1,700 troedfedd, wedi'i leoli yn ardal Dylife. Yn ogystal, mae 150 acer ychwanegol sy'n terfynu â'r mynydd yn cael eu rhentu oddi wrth ddau gymydog.

Mae'r ddiadell yn cynnwys tua 450 o famogiaid Cymreig a 120 o hesbinod blwydd. Caiff oddeutu 150 o'r mamogiaid hynaf eu croesi gyda hwrdd Aberfield. Cedwir 330 o famogiaid Aberfield X Cymreig gan ddefnyddio hyrddod Beltex X Texel. Mae'r cyfraddau sganio yn amrywio o 145-165% i'r defaid Cymreig a 170-180% i'r defaid croes. Gwerthir yr ŵyn i gyd yn y farchnad leol ym Machynlleth trwy law Farmers Marts o fis Gorffennaf ymlaen.

Cafodd rhannau o'r mynydd eu trin nôl yn y 70/80au. Mae darn arall wedi'i ail-hadu'n ddiweddar drwy'r cynllun 'Tyfu er mwyn yr Amgylchedd' i gael mwy o borthiant ar y mynydd ar gyfer y gaeaf. Gwnaed byrnau o silwair ar y tir hwnnw eleni am y tro cyntaf erioed.

Meilir yw'r ail genhedlaeth i ffermio Tŷ Gwyn, fferm 120 acer ger Aberhosan ble mae'n byw gyda'i wraig, Siwan a'r plant, Greta, Aron a Guto. Bu ei rieni Ieuan a Mair Jones yn ffermio yno nes i Meilir gymryd yr awenau a'r denantiaeth. Yn Nhŷ Gwyn mae'r fuches sugno o 20 buwch groes a tharw Limousin wedi'u lleoli. Gwerthir y gwartheg stôr yn Nolgellau yn 18-20 mis. Daw'r ŵyn i lawr o'r mynydd i Dŷ Gwyn yn yr haf/hydref i besgi ar gaeau sydd wedi'u gwella yn y blynyddoedd diweddar. Am y tro cyntaf, mae defaid ac ŵyn hefyd yn pori ar dir fferm eu cymdogion dan drwydded pori 11 mis, sydd wedi ychwanegu oddeutu 200 acer i'r fferm.

Darperir lluniaeth ysgafn gan 'Dyfi Diner' a hynny yn rhad ac am ddim. Casglwch eich tocyn bwyd wrth barcio. Bydd y digwyddiad yn cynnwys taith tractor o amgylch y mynydd (os bydd y tywydd yn caniatáu).

**Cyfarwyddiadau teithio:** Mynydd Dyfngwm, Rhydyporthmyn, Dylife, Llanbrynmair, Powys, SY19 5BW.
W3W - ///mewnblyg.dyfeisgar.cragen
**O'r gogledd:** yn Llanbrynmair, trowch i gyfeiriad Penfforddlas a Llanidloes. Cyn cyrraedd Penfforddlas, trowch i'r dde i gyfeiriad Dylife a Machynlleth. Bydd arwyddion ar y ffordd.
**O'r de:** ym Machynlleth, trowch i gyfeiriad Llanidloes. Dilynwch y ffordd nes y byddwch bron â chyrraedd Dylife. Bydd arwyddion i'ch helpu.





